

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Lanfachreth
Nos Fawrth, Mawrth 21, 2023 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Cafwyd cyfarfod byr yn Chwefror 21, 2023 oherwydd dim ond Delyth Lloyd Griffiths, Meurig Ashton, Peredur Jenkins a Henry M. Edwards oedd yn bresennol. Rhoddwyd sylw i faterion:-

Eitem 5. Penderfynwyd talu eitemau 1. a 2.
Eitem 8.g. Penderfynwyd derbyn y taliadau.
Eitem 8. j. Penderfynwyd rhoi arian i'r sefydliadau.
Eitemau 11.ch. a d. - Penderfynwyd derbyn yr eitemau.

Oherwydd tywydd gaeafol canslwyd y cyfarfod Ionawr 17 a chafwyd cyfarfod bur ar Zoom yn Ionawr 18.

Presennol: Barry Jones, Emlyn Roberts, Gerallt Griffith, Karen G. Goswell, Geraint Evans, Peredur Jenkins, Llion Williams a Robin Jones. Hefyd Henry M. Edwards.
Trafodwyd a chytunwyd Eitem 8.d. ac Eitem 8.dd.

Presennol Cynghorwyr: Meurig Ashton (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Cyng. Delyth Lloyd Griffiths, Emlyn Roberts a Llion Williams.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Emlyn Roberts a Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio Eitem 7.b.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 15,2022

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 15, 2022.

Eitem 12.a. Anfonwyd llythyr (15/12/2022) yn gofyn beth yw'r diweddaraf ynglŷn â Neuadd Llanfachreth a'r tir o gwmpas.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

Derbyniwyd llythyr (26/1/2023) yn rhoi gwybod mae'r mater yn cael ei ddelio gan Manon Jones o Guthrie Jones & Jones. Mae'r llythyr yn cynnwys rhestr o gwestiynau maent angen ateb ynglŷn â Neuadd Llanfachreth. Mae cyfarfod am gael ei drefnu rhyngddi hi a Gerallt Griffith a Peredur Jenkins er mwyn cadarnhau'r camau nesaf.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd cyfarfod ar 1/2/2023. Roedd y Clerc yn bresennol hefyd. O'r cyfarfod bydd Guthrie Jones & Jones yn anfon gwybodaeth sydd ei angen.

Derbyniwyd llythyr (8/2/2023) oddi wrth Guthrie Jones & Jones yn cynnwys dogfennau: Letter to client, 1972 Conveyance, 1969 Agreement, Declaration of Trust. Anfonwyd y llythyr i Peredur Jenkins a Gerallt Griffith, ac wedyn i'r holl aelodau.

Mae ffioedd i'w dalu i Guthrie Jones & Jones:

1. Ffi o £30 at Gofrestrfa Dir ar gyfer cofrestru'r Neuadd.
2. Ffi o £30 i Gofrestrfa Dir y maes parcio.
3. Ffi o £450 + TAW = £540 at eu costau am ddelio â'r cais i gofrestru'r Neuadd.
4. Ffi o £400 + TAW = £480 at eu costau am ddelio â'r cais i gofrestru'r maes parcio.

Cyfanswm: £ 1,080.

Penderfynwyd talu 1. a 2..

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (16/11/2022) oddi wrth Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd gyda chofnodion gwaithdai Sesiwn Ardal NI Dolgellau cymherwyd lle ar 22/9/2022 yn Coleg Meirion.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (15/11/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod nid oes angen giat newydd ar y llwybr sy'n arwain i Neuadd Rhydymain o'r A494 oherwydd mae ffens a giat yno i rwystro anifeiliaid ddod i'r ffordd. Hefyd mae cawell yno sy'n arbed un redeg i'r ffordd. Gweler Cofnodion Medi 20, 2022.

c. Llythyr (17/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru ynglŷn ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Rheoliadau drafft i ddiwygio Dosbarth 6 o'r eithriadau i breimymau'r dreth cyngor ar gyfer ail gartrefi. Bydd Un Llais Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad ac yn barod i dderbyn ymatebion y cynghorau erbyn 7/12/2022.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

ch. Llythyr (18/11/2022) oddi wrth Cyngor Tref Pwllheli yn rhoi gwybod maent yn cynnal Cyfarfod Cyhoeddus i drafod y bwriad i gau canolfannau Ambiwylans Awyr Cymru yng Nghaernarfon a'r Trallwng o blaid adleoli i safle newydd yn Rhuthun. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd, Ysgol Glan Môr am 7th ar 25/11/2022. Bydd aelodau o Ymddiriedolaeth Elusennol Gwasanaeth Ambiwylans Awyr Cymru yn bresennol a Liz Saville Roberts (AS) a Mabon ap Gwynfor (AS)

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (24/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cymru, trwy Comisiwn Cymunedau Cymraeg, yn ymgynghori sut y gellir cryfhau cymunedau Cymraeg gyda'r bwriad o ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Bydd Un Llais Cymru yn ymateb i ymgynghoriad sy'n cael ei wneud a byddent yn ddiolchgar o dderbyn ein ymateb erbyn diwedd dydd Gwener 16 Rhagfyr 2022.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (28/11/2022) oddi wrth Prifffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth ym mis Rhagfyr.

e. Anfonwyd (15/12/2022) cerdyn cydymdeimlo i Gerallt Griffith.

f. Llythyr (16/12/2022) oddi wrth Ruth Jenkins yn gofyn am raeau'r ffordd i Cors y Garnedd, Llanfachreth am fod y ffordd ar gau. Anfonwyd neges i Prifffyrdd i raeau'r ffordd.

ff. Llythyr (16/12/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell yn Ionawr, Chwefror a Mawrth 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (19/12/2022) oddi wrth Prifffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am y gwaith bydd yn cael ei wneud mis Ionawr:-

Gwelliant i 2 bont trwy atgyweirio canllaw a physt cyfeirbwyntio, a gwaith draenio ar Llwybrau Ceffyl 8, 11 a 28 yn Abergeirw.

h. Galwad ffôn (21/12/2022) gan breswilydd Llanfachreth yn cwyno bod cŵn yn gwneud eu busnes ym mynwent Eglwys Llanfachreth.

Cafwyd wybod bydd arwydd ar gât yr Eglwys yn rhoi gwybod i bobl i ofalu am eu cŵn.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

i. Llythyr (6/1/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher, Chwefror 15, 2023 gan ddefnyddio Zoom. Siaradwr fydd Liz Saville-Roberts AS. Bydd fwy o wybodaeth ar ddechrau mis Chwefror.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (12/1/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafndiaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn â Chapel Hermon, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau ar 17/1/2023 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

l. Llythyr (19/1/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafndiaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn i'r de o'r gyffordd ger Pont Felin y Lan, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau ar 24/1/2023 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod er mwyn gwneud gwaith adfer polyn a cheblau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ll. Llythyr (24/1/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Llanfachreth.

m. Llythyr (31/1/2023) oddi wrth Pennaeth Gweithrediadau y Gogledd Orllewin, Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod am waith cwmpo a chael gwared o goed bydd yn cael ei wneud ar dir wrth Rhydymain i arbed heintiedig coed llarwydd yn yr ardal. Bydd y gwaith yn effeithio ffordd A494. Bydd y gwaith yn cael ei wneud rhwng haf 2023 a 2026.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

n. Llythyr (7/2/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal ar 15/2/2023 am 7:00yh ar ZOOM. Amgáu mae Agenda a chofnodion cyfarfod 9/11/2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

o. Llythyr (21/2/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell yn Chwefror a Mawrth 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

p. Llythyr (6/3/2023) oddi wrth Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd. Gydag ymgyrch i gefnogi datgarboneiddio trafniadaeth ffyrdd trwy ddefnyddio cerbyd trydan mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynyddu pwyntiau gwefru trwy'r Wlad. Mae'n bosib bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfraniad ariannol at yr ymgyrch. Maent angen gwybod os mae tir yn y gymuned i osod pwyntiau gwefru. Amgáu mae rhestr o feysydd parcio lle mae pwyntiau gwefru wedi eu gosod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

r. Llythyr (9/3/2023) oddi wrth Priffyrdd, Peirianeg a Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC), Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae hwb newydd i Tim Tacluso Ardal Ni wedi ei sefydlu i gael gwybodaeth am y gwaith maent yn eu gwneud. Eu cyfeiriad yw: [Tîmau Tacluso 'Ardal Ni' Tidying Teams \(sharepoint.com\)](https://sharepoint.com)

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

s. Llythyr (13/3/2023 oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru (a llythyr (15/3/2023) oddi wrth Un Llais Cymru) yn rhoi gwybod maent yn datblygu Cynllun Coedwig newydd ar gyfer ardal Mawddach ac Wnion. Maent angen gwybodaeth ar faterion a allai effeithio ar y cynllun a rheolaeth fydd ei angen ar y goedwigaeth. Mae'r drafft ar [CAC Mawddach ac Wnion](#). Gyda chyfraniadau derbynir bydd y drafft yn cael ei ddiweddarau fel bo angen. Amcanion y drafft yw materion sy'n ymwneud ag Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylchedd. Bydd y cynllun yn amodol ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Effaith Amgylcheddol. Os mae sylwadau mae angen eu hanfon i NorthWestPeoplePlacesTeam@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk cyn Ebrill 14. Amgáu mae map yn dangos ardaloedd dan sylw.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/L310 (disgrifiad diwygiedig). Trosi adeilad allanol i greu llety byw ychwanegol i'r prif dŷ, a caniatâd ôl-wiethredol i gadw ffenestri to presennol. Dôl Feili, Rhydymain, (Cefnogwyd y cais gwreiddiol 30/10/2022).

Penderfynwyd cefnogi'r cais (4/12/2022),

b. Cais cynllunio NP5/54/583. Atgyweirio ac ymestyn tŷ presennol. Tŷ'r Orsaf, Drws-y-Nant, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (13/12/2022),

c. Llythyr (13/12/2022) oddi wrth y Parc ynglŷn â chais cynllunio NP5/54/456A. Maent yn rhoi gwybod nad ydym wedi ymateb yn ffurfiol i'r cais ond wedi cwstiyu'r deunyddiau i'w defnyddio. Maent yn cadarnhau y bydd yr adeilad yn cael ei adeiladu o bren gyda tho llechi.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

Y cais trafodwyd yn cyfarfod Gorffennaf 2021: NP5/54/456A. Codi caban i'w ddefnyddio fel annedd menter wledig ynghyd a decin, parcio, trac a tanc septig cysylltiedig. Penar-ddwnion Fach, Pen y Main, Dolgellau. Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc rydym angen wybodaeth ar beth mae'r cais yn bwriadu ei wneud gyda chael caban i ddefnyddio fel annedd menter wledig.

Yn ymateb i'r llythyr 13/12/2022 rhoddwyd gwybod i'r Parc:

Yr ateb rwyf wedi cael gan aelodau'r Cyngor nid gwneuthuriad y caban oedd y wybodaeth ychwanegol oedd ei angen ond yn hytrach beth yw'r Fenter Wledig sydd yn cymryd lle yn Penar-ddwnion:

"Y pum grŵp o fentrau a gwmpesir ym mholisi newydd Nodyn Cyngor Technegol 6 yw:

- amaethyddiaeth a choedwigaeth;
- gweithgareddau y mae eu mewnbynnau sylfaenol yn deillio o'r safle;
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli'r tir;
- twristiaeth a hamdden sy'n gysylltiedig â'r tir;
- gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwledig."

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/anheddau-mentrau-gwledig-canllawiau.pdf>

Doedd dim gwybodaeth yn y cais cynllunio yn dweud pa grŵp oedd y fenter yn dod o dan.

ch. Cais cynllunio NP5/54/585. Gosod twr latis 50m o uchder sy'n cynnal 6 antena, 4 dysgl trawsyrru, a gosod 2 gabinet offer ar y ddaear, 1 cabinet metr, a datblygiad ategol gan gynnwys lleoli generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, ffurfio llawr caled, ffurfio trac mynediad newydd, ac adeiladu compownd wedi'i ffensio 1.1m o uchder. Tir yn Tŷ Newydd-y-Mynydd, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. Y rheswm am gefnogi'r cais ydi ei bod yn bwysig i bobl sy'n gweithio a byw yng nghefn gwlad bod signal ffôn ar gael o ran busnes a diogelwch. Mae hyn yn wir hefyd i'r holl ymwelwyr sy'n mwynhau cerdded ein bröydd.

Mae aelodau y Cyngor o'r farn bod cwmnïau fel Cornerstone yn talu ffi/cyfraniad blynyddol i gyngorau cymuned am yr effaith weledol ac amgylcheddol ar yr ardal. Mae cyrff cyhoeddus fel Dŵr Cymru yn gofyn i fusnesion i gyfrannu at achosion cymunedol. Enghreifftiau eraill ydi cwmnïau melinau gwynt yn cyfrannu'n flynyddol i'r cynghorau cymuned. A fyddwch cystal â rhoi gwybod a fedr hyn fod yn amod i gais cynllunio o'r math yma?

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

d. Cais cynllunio NP5/54/295D. Hysbysiad o flaen llaw o dan Ran 24 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir) Gorchymyn 1995 fel y'i diwygiwyd ar gyfer gosod mast telathrebu 20 metr o uchder yn lle'r un presennol ynghyd ag antenau a dysglau, adleoli dysgl EE/H3G 600mm presennol, ac offer ategol. Tir yn Gwanas Fawr, Dolgellau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (9/2/2023).

dd. Cais cynllunio NP5/54/584A. Adeiladu decin i gefn yr eiddo. 8 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (26/2/2023).

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (16/11/2022) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2023-24. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 o dan adran 137 (1) a (3) £9.93 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn $£9.93 \times 603 = £5,987.79$.

b. Llythyr (18/11/2022) oddi wrth Guthrie Jones & Jones yn atgoffa ni i dalu bil derbyniwyd Awst 2, 2022.

c. Llythyr (28/11/2022) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

ch. Llythyr (1/12/2022) oddi wrth Ysgol Meithrin Dolgellau. Maent angen cymorth ariannol.

d. Llythyr (15/12/2022) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2023 / 2024. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 27, 2023.

Praesept 2022 /2023 - £12,000. Praesept 2021 /2022 - £9,000.

Anfonwyd gwybodaeth i'r aelodau yn awgrymu'r praesept.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £12,000 fel llynedd.

dd. Bil (8/1/2023) £211 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn 1af Mawrth, 2023 i gynnal a chadw'r wefan am flwyddyn arall.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Derbyniwyd (9/1/2023) £490.30, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2022 / 2023.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

f. Llythyr (10/1/2023) oddi wrth Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

ff. Llythyr (12/1/2023) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

g. Llythyr (17/1/2023) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod bydd taliad cyflog misol y Clerc o fis Mawrth 2023 yn: taliad i'r Clerc: £170.50, i Cyllid a Thollau EM: £42.62. $(£170.50 + £42.62)12 = £2,557.44$. Gweler Eitem 5.a. Cofnodion Tachwedd 15, 2022.

Penderfynwyd derbyn y taliadau.

h. Llythyr (29/1/2023) oddi wrth Theatr Baracaws. Maent angen cymorth ariannol.

i. Llythyr (4/3/2023) oddi wrth Llên y Llannau yn rhoi gwybod fe fydd yn cael ei gyhoeddi eto. Maent angen cymorth ariannol.

j. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen, Teenage Cancer Trust, Cerebral Palsy Cymru, Gofal Canser Tenovus, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Dawns i Bawb, Hosbisiau Plant House (Tŷ Gobaith), Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Ysgol Meithrin Dolgellau, Theatr Baracaws.

Llythyr (25/11/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y terfyn ar gyfer 2022-23. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 o dan adran 137(4)(a), (1) a (3) £8.82, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn $£8.82 \times 603 = £5,318.46$.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:-

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Ambiwlans Awyr Cymru: £200

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Rhoddwyd £50 i Merched y Wawr Rhydymain yn 20/9/2022.

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £350

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
Neuadd Brithdir: £700
Neuadd Rhydygorlan: £700
Neuadd Llanfachreth: £700
Neuadd Rhydymain: £700

Cyfanswm = £3,400.

I. Llythyr (22/2/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod eu gweithgareddau a gyda Ffurflen Aelodaeth 2023-2024. Tâl aelodaeth yw £161.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd talu'r tâl aelodaeth.

II. Llythyr (27/2/2023) oddi wrth Democratiaeth, Amrywiaeth, a Chydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru yn cynwys Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â thaliad costau i'r aelodau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynodd yr aelodau nid oeddynt am dderbyn taliadau.

m. Llythyr (13/3/2023) oddi wrth Office of National Statistics yn rhoi gwybod mae'r Cyngor wedi cael ei ddewis i gwblhau Annual Business Survey. Bydd y wybodaeth yn cael ei ddefnyddio i fesur sefyllfa economaidd yr UK ac i'r Llywodraeth penderfynu eu polisi economaidd.

n. Llythyr (16/3/2023) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.

o. Bil (17/3/2023) am £581.23 oddi wrth Gwynfor E. Jones am drwsio'r faine yn Llanfachreth.

Penderfynwyd talu'r bil.

p. Llythyr (13/3/2023) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2023.

ii. Bil am £216.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2023 ac am roi gwybodaeth cyflog fisol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi tystysgrif P60 am ddiwedd y flwyddyn.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

- r. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/11/2022: £1,143.01.
Balans yn y banc ar 29/11/2022: £10,280.09 (29/11/2021: £11,308.50).
- s. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/12/2022: £1,143.74.
Balans yn y banc ar 29/12/2022: £10,079.57 (29/12/2021: £11,180.70).
- t. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/01/2023: £1,144.64.
Balans yn y banc ar 29/01/2023: £10,158.75 (29/01/2022: £11,538.20).
- u. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 28/02/2023: £1,145.63.
Balans yn y banc ar 28/02/2023: £8,498.23 (28/02/2022: £8,195.40).

9. Archwilio

- a. Llythyr (12/1/2023) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi gwybod maent wedi cwblhau eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2021-22. Amgáu mae:

Copi o'r ffurflen flynyddol ardystiedig ar gyfer archwiliad, a hysbysiad cwblhau archwiliad.

Mae angen arddangos hysbysiad am gyfnod o 14 diwrnod i roi gwybod bod y Ffurflen Flynyddol ar gael i'r etholwyr i'w harchwilio; i'w arddangos ar ein hysbysfyrddau ac ar ein gwefan.

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Barn archwilio

Ac eithrio'r materion a adroddir isod yn fy Sail ar gyfer Amod. Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm Cyngor sy'n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol;
- yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol; • yn anghyson â threfniadau llywodraethu'r Pwyllgor; ac
- nad oes gan y Pwyllgor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Sail ar gyfer Amod

Nodwyd gan archwiliad mewnol nad oedd y gofyniad galw praesept blynyddol yn deillio o broses gyllidebol ddigonol, nid oedd cynnydd yn erbyn y gyllideb yn cael ei monitro'n rheolaidd ac nid oedd cronfeydd wrth gefn yn briodol. Mae hyn yn groes i ddatganiad y Cyngor bod trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol mewn lle yn ystod y flwyddyn.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

Materion eraill sy'n codi ac argymhellion

Tynnaf corff y Cyngor at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r corff fynd i'r afael â hwy.
Nodwyd materion talgrynnu yn y ffurflen flynyddol, dylid cadarnhau cywirdeb rhifyddol y dychweliad cyn ei gyflwyno i'w archwilio.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Rhodddwyd yr hysbysiad a'r Ffurflen Flynyddol ar ein gwefan yn 21/1/2023.
Rhodddwyd yr hysbysiad ar ein hysbysfyrdau.

10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Llythyr (16/11/2022) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd. O'r data mesur cyflymder traffig ger Seren Fach yn 2020, cyflymder cyfartalog oedd 36mya ac roedd mwyafrif o fodurwyr yn gyrru 44mya neu lai. Mae'r gwasanaeth am gynnal arolwg o'r lleoliad ac ar ran arall o'r B4416.

Cafwyd gwybod (22/12/2022) gan Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae asesiad o'r ffordd wrth Feithrinfa Seren Fach, Brithdir wedi ei wneud ac mae sylw yn cael ei roi i leoliad yr arwyddion y ffordd. Bydd ymgynghoriad yn cael ei wneud yn fuan yn 2023 i roi 20mya ar y ffordd. Bydd y Cyngor yn rhoi argymhellion ynglŷn â lleoliad cyflymdra 30mya a 20mya. Nid oes sicrwydd bydd lleoliad Seren Fach yn dod o dan y canllawiau newydd o 20/30 mya.

Llythyr (10/1/2023) oddi wrth Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd.

Canlyniadau derbyniwyd ar arolwg cyflymder a gymrodd lle yn ddiweddar ar y B4416 wrth Seren Fach, Brithdir.

Lleoliad	X	Y	Cyfyngiadau Cyflymder (mya)	Cyflymder 85ed	Cyflymder Canolig	Rhif Canolig Traffig Dyddiol	Cyfanswm Cerbydau yn y Cyfnod	Dyddiadau yr Arolwg
B4416 - Seren Fach, Brithdir	276763	318724	60	35.1	30.9	803	6426	21/11/2022- 28/11/2022

Fel y gwelwch nid yw cyflymder cerbydau ar y ffordd yma yn peri pryder i ni yn yr achos hwn.

Mae yna groeso i chi gysylltu'n ôl i drafod y canlyniadau os dymunwch.

b. Llythyr (5/12/2022) yn rhoi gwybod am gwestiwn rhodddwyd i Cyngor Gwynedd ar gadwyn fwyd gyda'r bwriad o brynu fwy o gynnyrch lleol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

c. Gwybodaeth cafodd cynghorwyr Cyngor Gwynedd ar ddiweddariad gan Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys ar y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) oddi wrth Mabon Ap Gwynfor AS.

Gweler Nodyn Briffio 4 ynghlwm, sy'n ddiweddariad ar y sefyllfa sy'n ymwneud â'r gwaith ar y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) mewn partneriaeth ag Elusen Ambiwylans Awyr Cymru.

Cafodd y cynnig cychwynnol ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (PGAB) ar 8 Tachwedd a gofynnodd yr Aelodau am fwy o graffu cyn y gellid cymryd camau pellach. Rhoddwyd adroddiad diweddar i EASC ar 6 Rhagfyr 2022. Cytunwyd ar bedwar maes ar gyfer craffu:

1. Darparu EMRTS i boblogaeth Cymru (cwmpas poblogaeth)
2. Cerbydau Ymateb Cyflym (RRV) (Sut orau i ddefnyddio'r cerbydau hyn)
3. Defnydd (defnyddio'r hyn sydd gennym mewn ffordd effeithiol)
4. Angen heb ei ddiwallu (mwy o gleifion i dderbyn y gwasanaeth gofal critigol)

Bydd ymgysylltu ffurfiol â'r cyhoedd yn cadarnhau sut mae'r GATMB, yn llywio datblygiad ffiniau neu derfynau i'w defnyddio ac opsiynau a fydd wedyn yn cael eu modelu. Bydd hyn yn sicrhau bod manteision neu anfanteision pob opsiwn yn cael eu nodi'n glir a'u pwysu a'u mesur fel rhan o broses agored, dryloyw a chadarn.

Roedd y diweddariad diwethaf yn egluro bod Tîm PGAB yn gweithio gydag arbenigwyr mewn Byrddau Iechyd a Chynghorau Iechyd Cymuned i ddatblygu deunyddiau ymgysylltu a phan gytunir arnynt bydd y broses ymgysylltu ffurfiol yn dechrau.

Mae gwaith yn parhau ar y deunyddiau ymgysylltu (a fydd yn cynnwys llinellau amser) ond yn ddealladwy mae ein tîm hefyd wedi bod yn brysur iawn yn cefnogi ymateb y GIG i'r pwysau presennol sy'n wynebu'r system gofal brys a'n cleifion. Gydag ymddiheuriadau mae hyn yn golygu nad yw'r deunyddiau'n barod eto ac felly ni fyddwn yn cychwyn ar y broses ffurfiol ar 9 Ionawr 2023 (wythnos nesaf). Rydym yn gobeithio rhannu gwybodaeth cyn gynted â phosibl, ac yn awr yn disgwyl i'r rhain fod ar gael erbyn dechrau mis Chwefror ac rydym yn gwerthfawrogi eich dealltwriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Byddaf yn darparu diweddariadau pellach maes o law

ch. Llythyr (15/1/2023) gan Mabon ap Gwynfor AS (Plaid Cymru) i'r wasg yn rhoi gwybod bydd cymunedau gwledig yn diodde os bydd safle Awyr Ambiwylans Cymru yn cael ei thorri.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

d. Llythyr (22/2/2023) oddi wrth Mabon ap Gwynfor AS yn rhoi gwybod bydd yr Ambiwylans Awyr yn parhau i'n gwasanaethu o'r meysydd awyr yng Nghaernarfon a'r Trallwng.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Adroddiad oedd i gyfarfod 17/1/2023:

1. Arian/dyled y Cyngor - mae y swyddogion yn rhagweld 12 miliwn o ddyled yn ystod 2023
Cafwyd o 7% gan Lywodraeth Cymru ac mae costau byw yn 11%
Amserlen
26/1/23 Ymgynghoriad i'r cynghorwyr a 9/2/23 cabinet yn trafod y toriadau.
***Gweler y wybodaeth ariannol ddiweddaraf mewn atodiad.**
2. Graeanu – Cefais gais i ofyn am roi graean ar y ffordd gan dri yn yr ardal - y diwrnod wedyn cafodd y ffyrdd penodol eu graeanu.
3. Seren fach - 20 milltir yr awr yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad fydd yn dod i bob Cyngor Cymuned.
4. Nannau – Gweler y diweddaraf gan Jonathan Cawley, Adran Cynllunio y Parc.
***Gweler yr atodiad**
5. Lle cynnes - tlodi tanwydd eto dydd Iau 19/1/23.
Cafwyd £3000 ei rhoi allan tro olaf i ni gael staff y Cyngor i roi cymorth yn y Llyfrgell
Rhydd.
Mae 34% o blant Cymru yn byw mewn tlodi a nifer fawr o “pre payment meters” yn uchel yng Ngwynedd.
6. Yn dilyn fy nghwestiwn am y bwyd sydd yn cael ei brynu yn lleol gan y Cyngor – 1/2/23 bydd cyfarfod cychwynnol i ddechrau gwella y sefyllfa yn y Sir.
***Gweler atodiad am y cwestiwn.**
7. Ambiwylans Awyr – Bu iddo fynd at ddamwain heddiw o fewn 26 munud i Caersws (Powys) o Ddinas Dinlle. Mae yr ymgynghoriad wedi ei symud o Ionawr 2023 i Chwefror. Dim rheswm penodol am hyn.
8. Magnox /Atomfa – Rwyf yn trefnu cyfarfod gyda staff yr Atomfa i gael diweddariad ar gais cyngor cymuned Ganllwyd. Mae croeso i aelodau yr ardal ymuno a ni.
9. “Searches” (wrth brynu Tŷ) .Mae y cyngor yn llwyddo i wneud rhain mewn 39 diwrnod rŵan.
10. Cynllunio – mae nifer o achoson agored wedi mynd lawr o 750 i 550 erbyn hyn er bod heriau denu staff i weithio yn yr adran.
11. 20 milltir yr awr mewn pentrefi – ymgynghoriad yn cychwyn yn fuan a bydd cyfle i'r Cyngor Cymuned gael rhoi ei barn ar y newid o 30 i 20 milltir yr awr mewn pentref.
***Gweler y wybodaeth mewn atodiad.**
12. Camp Ganllwyd (Maesgwm) ar leoliad yr hen Coed y Brenin – ymgynghoriad gan Cyfoeth Naturiol yn cychwyn yn fuan.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 21, 2023

13. Cynlluniau tai – ail gofrestru angen rŵan ar gyfer fod ar y rhestr Tai Cymdeithasol yng Ngwynedd cynllun Tai Teg(rhannu ecwiti) yn mynd yn ei flaen a nifer fach wedi elwa yn barod.

1. ‘Cyllideb Refeniw 2022/2023 Crynhoad o’r sefyllfa fesul Adran Cyngor Gwynedd.

2. ‘Nannau’. Mae’r Nannau ar raglen waith y Parc.

3. ‘Cwestiwn Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths’ i Cyngor Gwynedd ynglŷn â defnyddio cynyrch lleol i baratoi prydiau yn ysgolion, lleoliadau gofal a chanolfannau eraill y Cyngor. Derbyniwyd ateb.

4. Adroddiad ‘Terfynau cyflymder 20mya’ i Gynghorwyr Gwynedd.

Anfonwyd yr adroddiadau i’r aelodau.

e. Llythyr (14/2/2023) oddi wrth Rheolwr Traffig a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybodaeth ar ‘Newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder’ ynglŷn cyflymder 20mya. Amgáu mae gwybodaeth ar ‘Terfynau cyflymder 20myw’ gan Swyddog Cyfathrebu – Aelodau a Staff, Cyngor Gwynedd yn gofyn am sylwadau cynghorwyr ar y pwnc.

Anfonwyd yr adroddiadau i’r aelodau.

Llythyr (17/2/2023) oddi wrth Delyth Griffith yn rhoi gwybod mae’r ymgynghoriad anffurfiol wedi cau (19.12.2022-31.01.2023). Y cam nesa fydd map rhyngweithiol, sydd yn cynnwys y rhwydwaith i gyd, yn cael ei gyflwyno i’r gymuned yn ei gyfarwydd i dderbyn barn yn yr wythnosau nesaf.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

Llythyr (27/2/2023) oddi wrth Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Ymgyrch Diolch am 20. Maent am helpu cynghorau cymuned a thref i ddeall y newid cyflymder i 20mya a’i alluogi i fod yn llwyddianus. Mi fyddant yn egluro’r newidiadau, rhoi gwybodaeth ar y we, a chynnal cyfarfodydd ar Zoom.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

f. Mae angen bin halen wrth Forest Lodge, Llanfachreth. Ei gost fydd tua £400.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i roi bin halen yn y lleoliad.

11. Materion yr Aelodau

a. Anfonwyd llythyr (12/12/2022) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen llenwi bin halen ger Glanwnion ac mae angen graeanu rhiw o Ddrwsynant i dai Glanwnion (gwaith sydd i fod yn eu rhaglen cylch graeanu).

b. Anfonwyd llythyr (13/12/2022) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen graeanu'r ffordd sy'n arwain at Tir Mab Cynan a Llety Rhys, LL40 2RW. Yno mae cwpwl yn eu 70au gyda phroblem iechyd hir dymor yn byw. Hefyd mae merch yn byw yno ac mae hi'n gweithio fel gofalwr i Cyngor Gwynedd a ddim yn medru mynd i'w gwaith.

Llythyr ateb (13/12/2022) yn rhoi gwybod bydd y ffordd yn cael ei graeanu.

c. Anfonwyd llythyr (21/1/2023) i Priffyrdd iddynt roi sylw i graeanu ffordd Hermon – Trawsfynydd, ac i lenwi bin halen BH7 sydd ar riw Hermon.

ch. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn y Rhaglen

d. Mae angen cadarnhau Asedion.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Wedi cael cadarnhad gan Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Gwynedd bod gwerth y llochesi fws metal yn gywir Penderfynwyd derbyn yr Asedion.

dd. Mae Afon Wnion yn tanseilio wal cynnal wrth Station House, Drwsynant ar ffordd A494.

Anfonwyd y neges (10/1/2023) i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru iddynt roi sylw i'r mater.

e. Rhoddwyd gwybod (19/2/2023) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd bod golau stryd sydd ar dalcen tŷ Ysgol Llanfachreth ddim yn goleuo ac angen ei drwsio.

Llofnod:

Dyddiad: